# CABINET

Cofnodion cyfarfod o'r Cabinet a gynhaliwyd yn Ystafell Bwyllgora 1a, Neuadd y Sir, Rhuthun, Dydd Mawrth, 27 Medi 2016 am 10.00 am.

## YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr: Hugh Evans, Arweinydd ac Aelod Arweiniol yr Economi; Bobby Feeley, Aelod Arweiniol Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol, Oedolion a Phlant; Hugh Irving, Aelod Arweiniol Cwsmeriaid a Llyfrgelloedd; Barbara Smith, Aelod Arweiniol Moderneiddio a Thai; David Smith, Aelod Arweiniol y Parth Cyhoeddus; Julian Thompson Hill, Aelod Arweiniol Cyllid, Cynllun Corfforaethol a Pherfformiad ac Eryl Williams, Dirprwy Arweinydd ac Aelod Arweiniol Addysg.

**Arsylwyr:** Cynghorwyr Ray Bartley, Bill Cowie, Meirick Davies, Martyn Holland, Huw Hilditch-Roberts, Gwyneth Kensler, Jason McLellan, Arwel Roberts a Mark Young

## HEFYD YN BRESENNOL

Prif Weithredwr (MM), Cyfarwyddwyr Corfforaethol: Economi a'r Parth Cyhoeddus (RM); Penaethiaid Gwasanaeth: Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Democrataidd (GW), Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol (TW), Cyfleusterau, Asedau a Thai (JG), Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd (GB); Rheolwr Cludiant Teithwyr (PD); Rheolwr Tîm Datblygu Masnachol (DM); Rheolwr Rhaglen (RV); Rheolwr yr Amgylchedd Adeiledig (GR); Prif Swyddog Cyllid (RW), a Gweinyddwr y Pwyllgor (KEJ)

## DATGANIAD AR YR ADOLYGIAD BARNWROL YNGLŶN AG YSGOL LLANFAIR AC YSGOL PENTRECELYN

Gwnaeth y Cynghorydd Eryl Williams, Aelod Arweiniol dros Addysg y datganiad canlynol -

"Bydd yr Aelodau'n ymwybodol bod yr Uchel Lys wedi trosglwyddo dyfarniad ym mis Awst o ran her yr adolygiad barnwrol a ddygwyd gan Ymgyrch Pentrecelyn, yn erbyn y penderfyniad i gau Ysgol Llanfair ac Ysgol Pentrecelyn ac agor ysgol Eglwys yng Nghymru newydd categori 2 ar ddau safle.

Penderfynodd y Llys y dylai'r penderfyniad gael ei ddiddymu ar sail weithdrefnol. Dywedodd y Llys hefyd nad oedd yn dweud bod penderfyniad y Cyngor yn anghywir ar y rhinweddau. Byddai'n agored i'r Cyngor wneud penderfyniad tebyg yn y dyfodol, os yw'n dymuno, yn dilyn ymarfer ymgynghori pellach.

Byddwn nawr yn cymryd amser i fyfyrio ar ganfyddiadau'r llys ac ystyried y ffordd orau ymlaen. Byddwn yn ceisio ymgysylltu â'r ddau Gorff Llywodraethol. Bydd swyddogion yn gweithio ar hyn ac yn adrodd yn ôl i'r Cabinet gyda chanlyniadau'r ystyriaeth honno.

Hoffwn ei gwneud yn glir nad yw'r farn hon yn effeithio ar unrhyw benderfyniad arall y mae'r Cyngor wedi'i wneud mewn perthynas ag unrhyw ysgol arall yn ardal Rhuthun."

## 1 YMDDIHEURIADAU

Y Cynghorydd Huw Jones, Aelod Arweiniol dros Ddatblygu Cymunedol

Rhoddodd y Cadeirydd wybod am adferiad y Cynghorydd Jones, a oedd yn edrych ymlaen at ddychwelyd, unwaith roedd ei iechyd wedi gwella'n ddigonol.

## 2 DATGAN CYSYLLTIAD

Datganodd y Cynghorydd Eryl Williams gysylltiad personol ag Eitem 6 ar y Rhaglen: Diweddariad ar Brosiectau a ariennir drwy'r Cynlluniau Tref ac Ardal, gan ei fod ef yn Gadeirydd Canolfan Cae Cymro.

## 3 MATERION BRYS

Ni chodwyd unrhyw faterion brys.

## 4 COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 26 Gorffennaf 2016.

***PENDERFYNWYD** y dylid cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 26 Gorffennaf 2016 fel cofnod cywir ac y dylai’r Arweinydd eu llofnodi.*

## 5 GWASANAETHAU BWS LLEOL A CHLUDIANT ADDYSG

Cyflwynodd y Cynghorydd David Smith yr adroddiad yn nodi'r camau a gymerwyd yn dilyn cwymp GHA Coaches Ltd ym mis Gorffennaf 2016, a cheisio cytundeb ar y strategaeth ar gyfer gwasanaethau cludiant teithwyr yn y dyfodol.

Eglurodd y Cynghorydd Smith fod cludiant ysgol statudol wedi cael ei adfer yn syth ar ôl cwymp GHA Coaches a’r gwasanaethau bws lleol wedi’u hadfer yn raddol, yn rhannol o leiaf, hyd nes y ceir penderfyniad ynghylch y strategaeth ar gyfer y dyfodol. Talodd deyrnged i'r Tîm Cludiant Teithwyr am eu gwaith diflino wrth adfer cludiant i'r ysgol ar fyr rybudd a’r ymdrechion sylweddol a wnaed wrth sicrhau bod y cymunedau yr effeithir arnynt yn parhau i elwa o ryw fath o ddarpariaeth gwasanaeth bws lleol. Fodd bynnag, mae'r costau wedi bod yn sylweddol gyda £175k ychwanegol ar gyfer cludiant i'r ysgol yn y flwyddyn ariannol gyfredol. Byddai'r gyllideb ar gyfer gwasanaethau bws lleol hefyd yn cael ei gorwario ac yng ngoleuni costau yn y dyfodol, cynigiwyd bod aelodau’n trafod y strategaeth yn y dyfodol ar gyfer y gwasanaethau hynny a lefel y gyllideb ar gyfer gwasanaethau bws lleol yn y dyfodol, fel rhan o'r gweithdy cyllideb sydd ar ddod. Fe wnaeth y Cynghorydd Smith hefyd ddiweddaru aelodau ynghylch y trafodaethau gyda'r Gweinidog dros yr Economi a’r Seilwaith, yn cynghori y byddai Llywodraeth Cymru yn cynnig cymorth ariannol ar gyfer y costau wrth adfer gwasanaethau bws lleol, ond nid oedd cyfraniad wedi cael ei gynnig ar gyfer cludiant i'r ysgol a oedd yn cynrychioli’r gyfran fwyaf o'r baich ariannol ychwanegol i’r Cyngor.

Cafodd y materion canlynol eu trafod yn ystod y drafodaeth -

- Cymeradwyodd y Cabinet y camau a gymerwyd gan y Tîm Cludiant Teithwyr wrth adfer gwasanaethau bws a thalwyd deyrnged i'w gwaith caled a'u hymdrechion i sicrhau cyn lleied o drafferthion â phosibl
- tra bod y cynnig o gymorth ariannol gan Lywodraeth Cymru ar gyfer gwasanaethau bws lleol yn cael ei groesawu, codwyd pryderon ynghylch y pwysau ariannol sylweddol ychwanegol ar ddarpariaeth cludiant i'r ysgol a gofynnodd y Cabinet bod swyddogion yn cysylltu â Llywodraeth Cymru i geisio cymorth ariannol pellach yn hynny o beth
- ymatebodd y swyddogion i gwestiynau ac ymhelaethasant ar y ddarpariaeth wahanol mewn ardaloedd mwy poblog gyda thwf a buddsoddiad mewn gwasanaethau sector preifat, yn groes i ardaloedd mwy gwledig llai poblog, lle mae twf yn annhebygol
- trafodwyd dyfodol y gyllideb cludiant cyhoeddus ynghyd â'r sefyllfa ariannol a goblygiadau fel y nodwyd yn yr adroddiad, ac roedd rhywfaint o'r drafodaeth yn canolbwyntio ar opsiynau posibl i'w hystyried fel rhan o'r strategaeth yn y dyfodol, gyda'r bwriad o sicrhau gwasanaethau cynaliadwy yn y dyfodol. Cydnabu swyddogion bryderon ynghylch effeithiau posibl mewn ardaloedd gwledig ac fe wnaethant ymateb i gwestiynau am lwybrau penodol a rheoli gwasanaethau yn y dyfodol, er mwyn sicrhau atebion cynaliadwy wrth ystyried y strategaeth yn y dyfodol. Cadarnhaodd y swyddogion fod gwahanol fodelau yn cael eu harchwilio, gan gynnwys datblygu gwasanaethau cludiant cymunedol. Roedd Cabinet yn cefnogi'r cynnig gan y Cynghorydd Eryl Williams fod y Cyngor yn cysylltu â'r Cynllun Datblygu Gwledig ar gyfer arian, er mwyn datblygu darpariaeth yn y gymuned. Cytunodd y Cabinet hefyd fod angen ystyried y gyllideb yn ei chyfanrwydd, fel rhan o'r broses gyffredinol o osod y gyllideb
- codwyd peth pryder bod y gost i deithwyr sy'n defnyddio'r gwasanaethau newydd wedi cynyddu mewn rhai achosion, a dywedodd y swyddogion nad oedd gan y Cyngor unrhyw reolaeth dros gost tocynnau bws ar gyfer gwasanaethau a weithredir yn fasnachol ac efallai y bydd yn rhaid addasu prisiau i sicrhau hyfywedd dyfodol y gwasanaeth – fodd bynnag, i deithwyr rheolaidd, byddai'n fwy cost-effeithiol prynu tocynnau bws wythnosol / misol neu flynyddol, nad oedd yn fantais a oedd ar gael yn flaenorol gan GHA Coaches - gofynnwyd i'r swyddogion godi ymwybyddiaeth o'r opsiwn hwnnw.

***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn -*

*(a)* *cymeradwyo'r camau a gymerwyd gan swyddogion i lenwi bylchau gwasanaeth yn dilyn cwymp GHA, h.y. cefnogi'r meini prawf (a amlygwyd ym mharagraff 4.5 yn yr adroddiad) a ddefnyddir i adfer gwasanaethau tan ddiwedd y flwyddyn ariannol;*

*(b)* *cytuno y bydd y cyngor yn defnyddio cronfeydd wrth gefn i gyfrannu at rai o'r costau ychwanegol yn ystod 2016/17 (ar y dybiaeth y bydd Llywodraeth Cymru hefyd yn gwneud cyfraniad ariannol ychwanegol);*

*(c)* *cytuno y dylai trafodaethau am gyllideb y dyfodol ar gyfer gwasanaethau bws lleol ffurfio rhan o'r gweithdai cyllideb sydd ar ddod;*

*(d)* *nodi a bod yn ddiolchgar am y cynnig o gymorth ariannol gan Lywodraeth Cymru o ran y costau ychwanegol gan y Cyngor wrth adfer gwasanaethau*

*bws lleol yn dilyn cwymp GHA Coaches. Byddai'r Cabinet yn annog y Gweinidog yn barchus i ystyried cymorth ariannol pellach o ran y costau ychwanegol yn y flwyddyn ariannol gyfredol yn y ddarpariaeth statudol o wasanaethau cludiant ysgolion, sy'n cynrychioli’r gyfran fwyaf o'r baich ariannol ychwanegol a osodwyd ar y Cyngor oherwydd tranc y cwmni hwn;*

*(e) yn cyfarwyddo swyddogion i gychwyn trafodaethau gyda swyddogion y Llywodraeth mewn perthynas â'r elfen cludiant ysgol o’r costau ychwanegol hyn, a*

*(f) bod swyddogion yn mynd at y Cynllun Datblygu Gwledig i chwilio am arian ar gyfer datblygu gwasanaethau cludiant cymunedol.*

## 6 DIWEDDARIAD AR BROSIECTAU A ARIENNIR DRWY’R CYNLLUNIAU TREF AC ARDAL

Cyflwynodd y Cynghorydd Hugh Evans yr adroddiad yn argymell cymeradwyo'r cyllid ar gyfer prosiectau penodol Cynlluniau Tref ac Ardal fel y nodwyd yn yr adroddiad, ac fel yr argymhellwyd gan y Grŵp Hyrwyddwyr Tref.

Yn absenoldeb y Cynghorydd Huw Jones, adroddodd yr Arweinydd am ei bresenoldeb mewn nifer o gyfarfodydd Grŵp Hyrwyddwyr Tref. Tynnodd sylw at y dull a ddefnyddiwyd gan y Cyngor i fuddsoddi yn ei drefi a chymunedau a'r broses arfarnu drylwyr a oedd wedi cael ei chymhwyso'n gyson i bob prosiect, yn seiliedig ar feini prawf clir a mecanwaith sgorio. Roedd manylion arfarnu’r prosiectau, gan gynnwys asesu prosiectau newydd posibl, a dyraniadau cyllid a argymhellwyd, wedi eu nodi yn yr adroddiad. Y disgwyl oedd y byddai'r holl arian arfaethedig a ddyrannwyd yn cael ei wario erbyn diwedd Mai 2017.

Mynegodd y Cynghorydd Eryl Williams beth siom gyda'r broses ar gyfer cyflwyno’r gyfran ddiweddaraf o brosiectau i’w hasesu heb gyfraniad y Grwpiau Ardal Aelodau, o ystyried gwerthoedd trafod cynlluniau posibl yn lleol. Dywedodd yr Arweinydd y dylid bod trafodaeth rhwng hyrwyddwyr tref ac aelodau lleol ar brosiectau posibl cyn eu cyflwyno. Nodwyd bod yr amserlen ar gyfer cyflwyno prosiectau er mwyn defnyddio'r tanwariant wedi bod yn fyr ar yr achlysur hwn. Roedd y Cynghorydd Meirick Davies yn siomedig nad oedd y prosiect Trefnant wedi cael cefnogaeth a dywedodd yr Arweinydd fod yr un mecanwaith ar gyfer gwerthuso wedi cael ei gymhwyso'n gyson i bob prosiect arfaethedig.

***PENDERFYNWYD*** *bod yr arian heb ei ymrwymo a oedd yn gyfanswm o £100,000 yn cael ei ddefnyddio i gefnogi'r cynlluniau a nodwyd yn yr adroddiad.*

## 7 GWELEDIGAETH TWF AR GYFER ECONOMI GOGLEDD CYMRU

Cyflwynodd y Cynghorydd Hugh Evans yr adroddiad yn gofyn am gymeradwyo 'Gweledigaeth Twf ar gyfer Economi Gogledd Cymru' fel sail ar gyfer trafodaethau gyda Llywodraethau Cymru a'r DU dros Gynnig Bargen Twf ar gyfer y rhanbarth.

Roedd y ddogfen Gweledigaeth Twf yn ganlyniad dull cydweithredol ac yn nodi uchelgais clir ar gyfer Gogledd Cymru, yn enwedig mewn perthynas â datblygu

seilwaith, sgiliau a chyflogaeth a thwf busnes. Os yw busnes yn cael ei sicrhau i gyflawni cynllun gweithredu’r prosiectau, byddai'r rhanbarth yn profi twf economaidd cynaliadwy a byddai gwerth yr economi yng Ngogledd Cymru’n tyfu o £12.8 biliwn yn 2015 i £20 biliwn erbyn 2015 ac yn cynhyrchu o leiaf 120,000 o gyfleoedd cyflogaeth newydd. Credai'r Arweinydd fod Sir Ddinbych mewn sefyllfa dda yn logistaidd i elwa o fuddsoddiad a byddai'r ddogfen Weledigaeth yn ategu at waith y Cyngor ei hun wrth ddatblygu'r economi leol. Rhoddodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol - Economi a Pharth y Cyhoedd drosolwg o'r ddogfen sy'n nodi gweledigaeth a strategaeth ar gyfer twf ar draws y rhanbarth, gan gynnwys pecyn o brosiectau, er mwyn sicrhau twf economaidd a chyflogaeth gynaliadwy ac yn darparu sail ar gyfer trafodaethau buddsoddi â Llywodraethau Cymru a'r DU.

Croesawodd y Cabinet y Weledigaeth Twf fel ffordd o ddarparu fframwaith strategol a chyd-destun er mwyn llywio buddsoddiad a darparu twf ar draws y rhanbarth, a nododd y gefnogaeth eang gan sectorau a sefydliadau eraill.

Cafodd y materion canlynol eu trafod yn ystod y drafodaeth -

- trafododd yr aelodau’r strategaeth i fanteisio ar gysylltiad ag economïau'r Northern Powerhouse ac Iwerddon, yn enwedig yng ngoleuni'r newidiadau o fewn gweinyddiaethau cyfredol, gan nodi bod ymrwymiad yn parhau i gryfhau a datblygu'r economi ac y byddai'r Weledigaeth yn sicrhau bod y rhanbarth yn y sefyllfa orau i fanteisio ar fuddsoddiad
- roedd datblygu Bargen Twf ar gyfer Gogledd Cymru wedi’i gynnwys yn Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru a byddai'r Weledigaeth yn ffurfio sail ar gyfer y trafodaethau hynny - nodwyd bod y Gweinidog dros yr Economi a’r Seilwaith wedi bod yn gadarnhaol ynghylch y Weledigaeth a byddai â rôl allweddol wrth ddatblygu economi Gogledd Cymru
- roedd y Cynghorydd Eryl Williams wedi bod yn siomedig nad oedd y diwydiant amaethyddol wedi'i grybwyll yn benodol â'r ddogfen Weledigaeth o ystyried ei bwysigrwydd yng Ngogledd Cymru, ac fe gyfeiriodd yr Arweinydd at yr anawsterau wrth godi proffil un diwydiant penodol dros un arall, yn enwedig pan fo diwydiannau eraill yn creu mwy o swyddi. Nodwyd bod rhai cynhyrchion amaethyddiaeth, megis y sector bwyd a diod, wedi cael eu nodi
- amlygwyd pwysigrwydd seilwaith cludiant ac adroddodd y Cynghorydd David Smith ar waith y Fforwm Ymgynghorol ar Gludiant, o ran dylanwadu ar gynlluniau cludiant yn y dyfodol i fanteisio ar dwf economaidd yn y rhanbarth, a’i gefnogi
- cyfeiriwyd at y rhaglen sgiliau a sicrhau bod pobl â’r sgiliau angenrheidiol a mynediad at swyddi wrth iddynt gael eu creu, ac adroddodd y Cynghorydd Eryl Williams ar y gwaith o fewn ysgolion ynglŷn â gyrfaoedd yn y dyfodol, er mwyn sicrhau bod pobl ifanc yn cael eu harfogi â’r sgiliau yr oedd cyflogwyr eu hangen drwy wahanol fentrau, megis y rhaglen Llwybrau+. Byddai bod heb waith yn cael sylw drwy raglenni penodol sy'n canolbwyntio ar amgylchiadau'r unigolyn.

***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn -*

*(a)* *cymeradwyo "Gweledigaeth Twf ar gyfer Economi Gogledd Cymru" (ynghlwm fel atodiad i'r adroddiad) a chymeradwyo ei defnyddio fel sail ar*

*gyfer trafodaethau gan Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru gyda Llywodraethau Cymru a'r DU dros Gynnig Bargen Twf ar gyfer y rhanbarth, a*

*(b) nodi y bydd unrhyw Gynnig Bargen Twf ffurfiol sy'n codi yn cael ei gyflwyno i'w benderfynu gan y Cyngor, cyn i Gyngor Sir Ddinbych wneud unrhyw ymrwymiad.*

**8 ADRODDIAD CYLLID**

Cyflwynodd y Cynghorydd Julian Thompson-Hill yr adroddiad yn manylu ar y sefyllfa ariannol ddiweddaraf a chyllidebau gwasanaeth ar gyfer 2016/17. Rhoddodd grynodeb o sefyllfa ariannol y Cyngor fel a ganlyn -

- rhagwelwyd gorwariant net o £0.351 miliwn ar gyllidebau gwasanaeth a chorfforaethol
- roedd 60% o arbedion wedi'u cyflawni hyd yn hyn (targed 5.2m) gyda 10% arall yn gwneud cynnydd da; byddai 25% yn cael ei ohirio a'i gyflawni yn 2017/18, gyda dim ond 5% o arbedion ddim yn cael eu cyflawni o fewn yr amserlen
- tynnwyd sylw at risgiau cyfredol a rhagdybiaethau sy'n ymwneud â meysydd gwasanaeth unigol
- diweddariad cyffredinol ar y Cyfrif Refeniw Tai, y Cynllun Cyfalaf Tai a'r Cynllun Cyfalaf (gan gynnwys elfen y Cynllun Corfforaethol).

Ymhelaethodd y Cynghorydd Thompson-Hill ar faterion ariannol eraill o fewn yr adroddiad a gofynnwyd i'r Cabinet gymeradwyo'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig drafft; camau gweithredu i liniaru effeithiau ar alldro ariannol arbedion sydd naill ai'n cael eu gohirio neu heb eu cyflawni, ac argymhelliad y Grŵp Buddsoddi Strategol i fuddsoddi £4.4 miliwn yng ngham cyntaf prosiect datblygu glan y môr y Rhyl.

Cafodd y materion canlynol eu trafod yn ystod y drafodaeth -

- Tynnodd y Cynghorydd Eryl Williams sylw at yr effaith ar gyllideb y Cyngor yn deillio o doriadau i gyllid grant gan Lywodraeth Cymru, a oedd y tu allan i reolaeth y Cyngor - gofynnodd fod manylion y toriadau ariannol hynny yn cael eu cynnwys yn y Cynllun Ariannol Tymor Canolig ar gyfer tryloywder (tudalen 71, Tabl 4 Cyllideb Llywodraeth Cymru). Nododd y Swyddogion fod y driniaeth o grantiau wedi'i chynnwys yn y cyflwyniad i Gomisiwn Cyllid Llywodraeth Leol fel rhan o'r adolygiad cyllid
- Roedd Cabinet yn falch o nodi'r buddsoddiad sylweddol mewn prosiectau mawr, gan gynnwys Glan y Môr y Rhyl a hefyd fe dynnwyd sylw at lwyddiant y Nova. Roedd y Cynghorydd Eryl Williams yn falch o adrodd ar y cynnydd gyda phrosiectau mawr o ran y Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif, gan roi gwybod bod Sir Ddinbych ar flaen y gad o ran buddsoddi mewn moderneiddio ysgolion, a oedd yn wahanol i gynghorau eraill nad oeddent mewn sefyllfa i fuddsoddi. Rhoddodd glod i'r cyngor blaenorol a'r cyngor cyfredol am y weledigaeth strategol tymor hir ar gyfer ysgolion, a'i bod wedi'i gwireddu. O ran argaeledd arian yn y dyfodol, roedd Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i fuddsoddi bron i £2 biliwn mewn ysgolion newydd ac wedi'u hadnewyddu, a fyddai'n rhoi cyfle i barhau â'r rhaglen foderneiddio
- Cyfeiriodd y Cynghorydd David Smith at yr angen i fynd i'r afael â'r gorwariant parhaus ar y gyllideb Cludiant Ysgol, gyda'r bwriad o ddarparu cyllid

ychwanegol i gwrdd â chost lawn y ddarpariaeth yn y gyllideb sylfaenol - roedd hefyd angen cwrdd â'r gost ychwanegol o £175k, yn dilyn cwymp GHA Coaches

- Lleisiodd y Cynghorydd Jason McLellan ei bryderon ynghylch y broses gosod cyllideb ac amserlen. Dywedodd y Cynghorydd Thompson-Hill a swyddogion bod proses y gyllideb yn gadarn gan ymateb i'r pryderon a godwyd yn manylu ar y broses cyllideb hyd yma a'r camau nesaf arfaethedig er mwyn gosod y gyllideb ar gyfer 2017/18. Nodwyd y byddai proses y gyllideb yn cael ei thrafod yn fwy manwl yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol.

***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn -*

*(a) nodi'r cyllidebau a bennwyd ar gyfer 2016/17 a'r cynnydd a wnaed o ran strategaeth y gyllideb y cytunwyd arni;*

*(b) cymeradwyo'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig drafft (yn amgaeedig fel Atodiad 5 i'r adroddiad)*

*(c) cymeradwyo'r camau gweithredu sy'n cael eu hargymell i liniaru effeithiau alldro ariannol yr arbedion sydd unai'n cael eu gohirio tan 2017/18, neu ddim yn cael eu cyflawni o gwbl fel sy'n cael ei nodi yn y tabl ym mharagraff 6 yr adroddiad, a*

*(d) cymeradwyo argymhelliad y Grŵp Buddsoddiad Strategol i fuddsoddi £4.4m yng ngham cyntaf prosiect datblygu glan y môr y Rhyl. Mae'r argymhelliad yn ymgorffori cymeradwyo pecyn cyllido sy'n cynnwys clustnodi'r derbyniad cyfalaf y disgwylir ei dderbyn o werthu cyn safle'r Honey Club yn y Rhyl (fel y manylir yn nhablau paragraff 6 yr adroddiad).*

Ar y pwynt hwn (hanner dydd) cymerodd y cyfarfod egwyl am luniaeth ac fe wnaeth yr Arweinydd – y Cynghorydd Hugh Evans, adael y cyfarfod. Wedi ailddechrau'r trafodion, fe wnaeth y Dirprwy Arweinydd - y Cynghorydd Eryl Williams, gadeirio.

## 9 RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL Y CABINET

Cyflwynwyd Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Cabinet i'w hystyried a nododd yr aelodau'r ychwanegiadau/diwygiadau canlynol -

- Adroddiad Monitro Cynllun Datblygu Lleol Drafft (Hydref) – efallai y caiff ei symud
- Darpariaeth Uwchradd yn Seiliedig ar ffydd (Hydref) – symudwyd
- Cam Datblygu 1b Glan y Môr y Rhyl elfennau masnachol - Hydref
- Cynigion Terfynol y Gyllideb 2017/18 - Ionawr

Cyfeiriodd y Prif Weithredwr at gael gwared ar yr adroddiad Darpariaeth Uwchradd yn Seiliedig ar Ffydd a drefnwyd yn wreiddiol ar gyfer mis Hydref, a dywedodd y gallai'r eitem gael ei hadfer os bydd angen, unwaith y bydd y sefyllfa'n gliriach. Adroddodd am yr anawsterau wrth fwrw ymlaen â'r cynnig i gau Ysgol Uwchradd Gatholig y Bendigaid Edward Jones ac agor ysgol ffydd newydd, a dywedodd fod trafodaethau ar y gweill ar hyn o bryd er mwyn dod o hyd i ffordd ymlaen y gall pawb dan sylw gytuno arni.

***PENDERFYNWYD** nodi Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Cabinet.*

**Gwahardd y wasg a'r cyhoedd**

***PENDERFYNWYD** o dan Adran 100A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, bod y Wasg a'r Cyhoedd i'w gwahardd o'r cyfarfod ar gyfer yr eitemau busnes canlynol ar sail y tebygolrwydd y byddai gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym Mharagraff 14, 16 ac 17 o Ran 4 Atodlen 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 yn debygol o gael ei datgelu.*

**10 CYTUNDEB CYMAL LLETYGARWCH DATBLYGIAD GLANNAU'R RHYL**

Cyflwynodd y Cynghorydd Julian Thompson-Hill yr adroddiad cyfrinachol yn diweddaru'r Cabinet ar y cynnydd gyda phrosiect Glan y Môr y Rhyl, a gofyn am gymeradwyaeth i gwblhau'r Cytundeb Cymal Lletygarwch. Roedd manylion pellach am y cytundeb cyfreithiol wedi eu dosbarthu yn y cyfarfod.

Roedd Neptune Development Limited wedi'i benodi fel y partner datblygu a ffafrir ar gyfer Glan y Môr y Rhyl, ac fe wnaeth y Cyngor a Neptune gwblhau cytundeb cyfyngu yn Chwefror 2015 i symud ymlaen ymhellach â thrafodaethau. Roedd y Cytundeb Datblygu Meistr wedi'i gwblhau ym mis Gorffennaf 2016 ac roedd y rhan gyntaf o'r cytundeb datblygu yn barod i gael ei llofnodi. Cyfeiriwyd at statws y gwahanol gymalau o fewn y parthau lletygarwch gyda chyllid ar gyfer Cymal 1a (Theatr y Pafiliwn a'r Maes Parcio) a Chymal 1c (Dymchwel ac adfer yr hen Heulfan) wedi'i sicrhau. Roedd opsiynau ariannu yn cael eu harchwilio ar hyn o bryd ar gyfer Cymal 1b (Rhodfa'r Dwyrain, Hamdden, Bwyd a Diod Masnachol) a byddai model ariannu yn cael ei gyflwyno i gyfarfod nesaf y Cabinet i'w ystyried.

Croesawodd y Cabinet yr ail-ddatblygu a'r buddsoddiad yng Nglan y Môr y Rhyl, gan ddangos ymrwymiad y Cyngor i'r cynllun. Ymatebodd yr Aelod Arweiniol a'r swyddogion i gwestiynau ynghylch y materion cyfreithiol ac elfennau cytundebol o fewn y cynllun, ac adroddwyd ynghylch fforddiadwyedd a'r elfennau risg, ynghyd â chynlluniau i wella ac adnewyddu'r Maes Parcio Dan Ddaear.

***PENDERFYNWYD** bod y Cabinet yn cymeradwyo bod y Cytundeb Cymal Lletygarwch yn cael ei wneud gyda Neptune Development, â'r Cytundeb hwn yn cynnwys amod y bydd Cymal 1b ond yn symud ymlaen pan fydd telerau ariannu manwl yn cael eu cymeradwyo gan y Cyngor, gyda chymeradwyaeth o'r fath ar ddisgresiwn llwyr y Cyngor.*

**11 CYN YSBYTY GOGLEDD CYMRU, DINBYCH - GORCHYMYN PRYNU GORFODOL**

Cyflwynodd y Cynghorydd David Smith yr adroddiad cyfrinachol yn manylu ar y camau angenrheidiol i gymryd perchnogaeth o'r safle a chwblhau'r broses Gorchymyn Prynu Gorfodol.

Roedd y Cabinet yn gwybod am y dewisiadau i'w hystyried er mwyn symud ymlaen i'r Gorchymyn Prynu Gorfodol, a oedd wedi eu nodi yn yr adroddiad, ynghyd â'r opsiwn a argymhellwyd a'r rhesymau felly. Nodwyd y ceisiwyd am gefnogaeth y

Cabinet ar gyfer yr opsiwn a ffafrir cyn ei gyflwyno i'r Pwyllgor Cynllunio am benderfyniad ym mis Tachwedd / Rhagfyr.

Trafododd yr Aelodau'r gwahanol opsiynau gyda swyddogion a chodwyd cwestiynau ynglŷn â chadernid y mesurau lliniaru arfaethedig er mwyn lleihau'r risg i'r Cyngor sy'n deillio o'r broses. Fe fanylodd y Swyddogion ar y senarios posibl a allai godi o'r gwahanol ddewisiadau ac ymhelaethwyd ar y broses ar gyfer pennu iawndal sy'n daladwy, os byddai'r Cyngor yn cymryd perchnogaeth o'r safle. O ran dyfodol y safle, os byddai'r Cyngor yn cymryd perchnogaeth, rhoddwyd sicrwydd bod cynllun cyflawni wedi'i gostio'n llawn yn ei le.

Cytunodd y Cabinet ei bod yn bwysig gweithredu a chynnal momentwm ac mai'r opsiwn a argymhellwyd oedd y ffordd orau ymlaen yn yr achos hwn.

***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn cefnogi gwneud y Datganiad Breinio Cyffredinol a symud ymlaen i'r Pwyllgor Cynllunio ar gyfer cymeradwyaeth derfynol, pan fydd y Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd, Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Democrataidd, y Prif Swyddog Cyllid a'r Aelod Arweiniol yn fodlon bod mesurau lliniaru rhesymol parthed risg ariannol wedi cael eu sicrhau fel y nodir yn Atodiad 1 i'r adroddiad.*

Daeth y cyfarfod i ben am 1.00 p.m.